

**Dyddiad:** 5 Rhagfyr 2001

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Teitl:** Materion yn deillio o Adroddiad Kennedy

## **Pwrpas**

1. Rhoi amlinelliad o Adroddiad Kennedy i'r Pwyllgor a gwahodd Aelodau i drafod rhai agweddau penodol o'r adroddiad.

## **Gweithredu**

2. Gofynnir i chi nodi bod y Weithrediaeth yn bwriadu cyhoeddi ymateb llawn i Adroddiad Kennedy cyn bo hir. Yn y cyfamser, gofynnir i chi ystyried dwy o themâu canolog yr Adroddiad yn fanwl:

- y ffyrdd y caiff gwasanaethau plant eu rheoli/darparu;
- materion cyffredinol yn ymwneud â newid diwylliant yr NHS.

## **Cefndir**

3. Cyhoeddwyd Adroddiad Kennedy ar 18 Gorffennaf. Gofynnwyd i'r Ymchwiliad, a gadeiriwyd gan yr Athro Ian Kennedy, ystyried llawdriniaethau ar y galon i blant yn Ysbyty Brenhinol Bryste rhwng 1984 a 1995 a nodi'r gwersi ehangach ar gyfer yr holl wasanaeth iechyd.

4. Gan ystyried yr hyn a ddigwyddodd yn Ysbyty Brenhinol Bryste rhwng 1984 a 1995, disgrifia'r Adroddiad drychineb a ddeilliodd o obeithion uchel ac uchelgais. Eglura'r Adroddiad bod rhwng 30 a 35 yn rhagor o blant o dan flwydd wedi marw yn sgil llawdriniaeth agored ar y galon ym Mryste rhwng 1991 a 1995 nag mewn unedau calon tebyg mewn rhannau eraill o Loegr. Nid gwahaniaeth yn nifrifoldeb yr achosion a oedd i gyfrif am hyn. Er bod cyfraddau marwolaeth wedi disgyn yng ngweddill y wlad, nid oedd hyn yn wir am Fryste.

5. Mae'r Adroddiad yn datgelu gwendidau sylweddol yn y systemau, y diwylliant a'r trefniadau rheoli a oedd ar waith ar y pryd; ac yn amlygu diwylliant lle na châi barn na phryderon rhieni eu hystyried yn ddigonol, lle nad oedd arferion archwilio clinigol digonol ar waith, lle nad oedd rheolwyr yn annog gweithwyr i drafod yn agored a lle na cheisiwyd lleddfu pryderon staff na rhoi sylw i rybuddion cynnar.

6. Mae'r argymhellion yn eang a bydd nifer ohonynt yn galw am newid sylfaenol o ran diwylliant.

7. Mae'r Adroddiad yn casglu y cafwyd cyfuniad trasig o ddigwyddiadau oherwydd bod clinigwyr allweddol wedi methu ag ystyried eu harferion (gwnaed camgymeriadau gan y staff uwch dan sylw, a hynny i raddau am iddynt gymryd yn ganiataol y byddai'r sefyllfa'n gwella maes o law); uwch reolwyr wedi methu ag amgyffred difrifoldeb yr hyn a oedd yn mynd o'i le; a phobl mewn gwahanol swyddi wedi methu â gweithredu. Dr Stephen Bolsin, anesthetydd yn yr ysbyty, a ddatgelodd yr hyn a oedd yn digwydd yno, gan sbarduno cadwyn o ddigwyddiadau a arweiniodd at atal triniaethau ar y galon i blant ym 1996.

8. Mae'r Adroddiad yn cynnwys 198 argymhelliad eang ynghylch trefniadaeth a diwylliant yr NHS a fydd yn gryn her er mwyn sicrhau nad all trychineb fel a gafwyd ym Mryste ddigwydd yn rhywle arall.

9. Yn ôl yr Adroddiad dylai'r claf fod yn ganolog i'r ffordd y caiff y gwasanaeth iechyd ei drefnu. Mae'r argymhellion yn deillio o'r egwyddor arweiniol fod hawl gan y claf i ddisgwyl:

- Parch a gonestrwydd;
- Gofal mewn lleoliad a gaiff ei arwain yn dda;
- Gweithwyr proffesiynol cymwys ym maes gofal iechyd;
- Gofal diogel;
- Gofal o safon briodol;
- Y cânt eu cynnwys yn yr NHS ac y cânt fod yn rhan ohono, fel cleifion ac fel aelodau o'r cyhoedd.

10. Mae'r argymhellion yn nodi ymgais fwriadol i newid diwylliant yr NHS er mwyn creu diwylliant lle gellir cydnabod nad yw meddygaeth yn wyddoniaeth berffaith a bod hyd yn oed y goreuon yn gallu gwneud camgymeriadau. Rhaid iddo fod yn ddiwylliant lle ceir systemau a chysylltiadau priodol er mwyn darparu fframwaith diogel y gellir rhoi gofal clinigol oddi mewn iddo a hynny i safon uchel gydnabyddedig; lle gellir monitro a gwerthuso canlyniadau; lle caiff staff eu rheoleiddio, eu hyfforddi a'u cefnogi yn dda o ran y gwaith y disgwylir iddynt ei wneud; lle gwneir cyn lleied o gamgymeriadau â phosibl, ond lle caiff gwersi eu dysgu a'u rhannu lle bo camgymeriad yn digwydd; ac yn bennaf, lle mae cleifion yn bartneriaid yn y broses benderfynu.

## **Datblygiadau Diweddar**

11. Er bod yr hyn a ddigwyddodd ym Mryste yn drasig, cyflwynwyd nifer o sefydliadau a mecanweithiau newydd ers hynny sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gofal a ddarperir gan yr NHS. Mae'r rhain wedi helpu i ddechrau newid diwylliant yr NHS trwy neilltuo amser i reolwyr edrych ar ansawdd gofal a sicrhau eu bod yn canolbwyntio arno. Felly mae ansawdd yn flaenllaw. Mae'n hanfodol ein bod yn ystyried argymhellion Kennedy yng ngoleuni'r datblygiadau hyn. Ymhlith y rheini mae:

- **Sefydliad Cenedlaethol Rhagoriaeth Glinigol** – fe'i sefydlwyd yn Awdurdod Iechyd Arbenigol i Gymru a Lloegr ar 1 Ebrill 1999. Mae'n rhan o'r NHS a'i swyddogaeth yw rhoi canllawiau cadarn a dibynadwy i gleifion, gweithwyr iechyd proffesiynol a'r cyhoedd ynghylch arfer gorau

ar hyn o bryd. Mae canllawiau'r Sefydliad yn ymwneud â'r technolegau iechyd unigol (gan gynnwys meddyginiaethau, dyfeisiadau meddygol, technegau diagnostig, a gweithdrefnau) a rheoli amodau penodol yn glinigol.

- **Y Comisiwn Gwella Iechyd** a sefydlwyd ar 1 Ebrill 2000 i wella ansawdd gofal i gleifion yn yr NHS ledled Cymru a Lloegr. Mae wedi bod yn amlwg ers blynyddoedd bod safon y gofal a roddir gan yr NHS yng Nghymru a Lloegr wedi amrywio, er enghraifft o un ysbyty i'r llall, o un adran i'r llall o fewn yr un ysbyty, ac o un practis cyffredinol i'r llall. Nod y Comisiwn yw mynd i'r afael â'r amrywiad hwn ac mae rhaglen eisoes ar y gweill i sicrhau bod pob claf yn yr NHS yn cael gofal o'r un safon uchel.
- **Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol** a luniwyd i sicrhau bod yr NHS yn darparu gwasanaethau o'r safon uchaf i bawb, waeth ble maent yn byw. Maent yn amlinellu safon y gofal y gall cleifion ei disgwyl, a phryd, ar gyfer eu cyflwr/salwch waeth ble maent yn byw yng Nghymru.
- **Yr Asiantaeth Genedlaethol dros Ddiogelwch Cleifion.** Caiff asiantaeth newydd ei sefydlu i hybu diogelwch cleifion yn yr NHS trwy gyflwyno system genedlaethol i gofnodi methiannau, camgymeriadau a sefyllfaoedd lle bu bron i rywbeth ddigwydd yn y gwasanaeth iechyd. Bydd yn gweithredu system gofnodi orfodol ar gyfer cofnodi pob camgymeriad er mwyn sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu pan aiff rhywbeth o'i le.

## Ystyried

12. Mae'n hanfodol ystyried yr argymhellion ochr yn ochr â "Gwella Iechyd yng Nghymru" a'r broses o'i roi ar waith. Mae amcanion y cynllun a'r adroddiad yn llwyr gyd-fynd â'i gilydd, sef darparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar bobl a gwasanaeth y mae pobl yn rhan ohono a ddylai fod:

- yn haws i gleifion ei ddeall;
- yn atebol am y camau y cymer a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu;
- yn meddu ar lais democrataidd cryfach o ran y ffordd y caiff ei reoli.

13. Yng Nghymru mae gennym eisoes Gomisiynydd Plant ac Is-bwyllgor Cabinet ar Blant a Phobl Ifanc, yr wyf i yn ei gadeirio. Swyddogaeth yr Is-bwyllgor Cabinet yw hybu iechyd a lles yr holl blant a phobl ifanc, ynghyd â'u datblygiad addysgol, cymdeithasol a phersonol. Yn ogystal, rydym yn datblygu Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol i Blant yng Nghymru. Mae Adroddiad Kennedy ymhlith amryw o astudiaethau'n ymwneud â gwasanaethau plant sydd ar y gweill yng Nghymru. Rhaid ei ystyried ochr yn ochr ag eraill, megis yr Adolygiad o Wasanaethau Trydyddol ac Ymchwiliad Carlile.

14. Ar y cyfan, rwy'n fodlon â'r argymhellion, naill ai yn llwyr neu o ran egwyddor. Mae nifer o argymhellion y mae angen eu trafod ymhellach â chydweithwyr yn yr Adran Iechyd am eu bod yn ymwneud, er enghraifft, â chyrrff a noddir ar y cyd megis y Sefydliad Cenedlaethol Rhagoriaeth Glinigol

a'r Comisiwn Gwella Iechyd.

Cam cyntaf y broses fydd ein hymateb. Er bod gwaith ar y gweill i roi nifer o'r argymhellion ar waith, mae gofyn datblygu argymhellion eraill yn sylweddol, sef:

- Sicrhau ein bod yn mynd i'r afael yn llwyr â'r mater o gael caniatâd i roi triniaeth. Bwriadaf gyhoeddi canllawiau ar y mater hwn erbyn diwedd y flwyddyn.
- Gwasanaethau plant gan gynnwys datblygu Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol

## **Diwylliant yr NHS**

### **Y sefyllfa ar hyn o bryd**

15. Mae camau wedi'u cymryd a cheir cydnabyddiaeth yn yr NHS, er nad yn llwyr, bod angen sicrhau:

- bod cleifion yn rhan o'r gwaith o lunio, cynllunio a darparu'r gwasanaethau y maent hwy, eu teuluoedd a'u gofalwyr yn dibynnu arnynt
- bod systemau rhybudd cynnar ar gael i sicrhau bod y rhai sy'n darparu gwasanaethau'r NHS yn gymwys a bod y rhai nad ydynt yn gymwys yn cael eu hasesu ac yn derbyn hyfforddiant ychwanegol er mwyn iddynt fodloni'r safon ddisgwyliedig
- bod systemau ar waith i sicrhau nad yw'r rhai sy'n gyson yn methu â darparu gwasanaethau cymwys, er gwaethaf mesurau cywiro a chymorth, yn gallu gweithio yn yr NHS
- bod arweiniad mwy cadarn ar waith yn yr NHS a bod sefydliadau'n atebol am fethu â darparu gwasanaethau
- bod mwy o ystyriaeth yn cael ei rhoi i anghenion hyfforddi a datblygu pawb sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau'r NHS, o weithwyr proffesiynol i reolwyr
- y dylid cael fframwaith mwy cadarn er mwyn cael caniatâd cytbwys oddi wrth gleifion, gan sicrhau bod cleifion yn derbyn yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt er mwyn gwneud penderfyniad cytbwys ynghylch eu gofal a'u triniaeth.

16. Mae astudiaeth ddiweddar o Ddiwylliant Staff Ysbytai yng Nghymru yn cael ei chwblhau ar hyn o bryd. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar bedwar maes:

- mapio strategaethau rheolaeth glinigol mewn pum ymddiriedolaeth
- dadansoddi barn staff am reolaeth glinigol
- dadansoddi sut y mae staff yn asesu eu sefydliad ac yn eu cysylltu eu hunain ag ef
- dadansoddi isddiwylliant proffesiynol

17. Dylai'r prosiect ddod i ben ym mis Mawrth 2002. Gofynnir i Aelodau'r Pwyllgor ystyried y pwyntiau a ganlyn:

- Pa ddiwylliant yr ydym am ei gefnogi a'i feithrin yn NHS Cymru a pha egwyddorion arweiniol

fydd yn sail i'r diwylliant hwnnw?

- Sut y gallwn reoli diwylliant a pha fesurau cefnogol y gallwn eu rhoi ar waith?
- Beth ddylem ei wneud pan fo pobl yn gwrthwynebu newid positif mewn diwylliant? Sut y gallwn newid diwylliant sy'n gweld bai ar bobl yn ddiwylliant lle caiff sylwadau a phrofiadau cleifion eu hannog, eu trafod a lle gweithredu ar eu sail?
- Mae arweinyddiaeth gref yn allweddol er mwyn newid diwylliant. Sut allwn atgyfnerthu arweinyddiaeth yng Nghymru?
- A ydy'r Pwyllgor am gael cyflwyniad ar ganlyniadau'r astudiaeth o ddiwylliant ysbytai yn y dyfodol?

## **Gwasanaethau Plant**

### **Y sefyllfa ar hyn o bryd**

18. Mae adolygiad cynhwysfawr o'r gwasanaethau plant trydyddol sydd ar gael i blant yng Nghymru ar y gweill gan Gomisiwn Gwasanaeth Iechyd Arbenigol Cymru. Bydd yr adolygiad yn ystyried argymhellion Ysbyty Brenhinol Bryste a daw i ben erbyn 2002.

19. Ym mis Mawrth eleni sefydlwyd Grwp Adolygu Gwasanaethau Cardiaidd Pediatrig Cenedlaethol i baratoi safonau cenedlaethol ar gyfer pob agwedd ar ofal a thriniaeth i blant â chlefyd ar y galon o'u geni. Mae gan Gymru gynrychiolaeth ar y Grwp ac mae disgwyl i'r Grwp adrodd wrth Weinidogion yn gynnar yn 2002.

20. Sefydlwyd y Grwp Adolygu Gwasanaethau Cardiaidd Pediatrig Cenedlaethol ym mis Mawrth 2001 ac mae disgwyl iddo adrodd wrth Weinidogion yn gynnar yn 2002.

21. Bydd yr Adolygiad yn ystyried canfyddiadau ymchwiliadau Brompton ac Alder Hey, yn ystyried yn ofalus yr adroddiad ar ymchwiliad Ysbyty Brenhinol Bryste ac yn datblygu'r gwaith paratoi sylweddol a wnaed eisoes gan Gymdeithas Bediatrig y Galon Prydain, ynghyd ag adolygiadau tebyg mewn gwledydd eraill, ac yn gwneud argymhellion ar gyfer newid.

22. Casglwyd gwybodaeth oddi wrth bob Ymddiriedolaeth ag unedau calon pediatriyddol a genedigol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon trwy holiadur a anfonwyd at Brif Weithredwyr. Mae rhaglen ar y gweill i ymweld mewn ffordd strwythuredig â phob un o'r unedau yn sgil yr adroddiad. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r unedau fod yn rhan o'r Adolygiad, dilysu'r wybodaeth a roddwyd yn yr holiadur a gwrando ar sylwadau rhieni.

23. Mae cynnwys defnyddwyr/gofalwyr a strategaeth ymgynghori yn rhan o'r rhaglen waith. Yn ogystal â chwrdd â grwpiau rhieni lleol yn ystod ymweliadau, mae'n cynnwys cyfarfod â grwpiau rhieni cenedlaethol mewn digwyddiadau a drefnir gan y Children's Heart Foundation.

24. Gofynnir i Aelodau'r Pwyllgor ystyried sut y byddent yn dymuno bod yn rhan o'r broses o uno'r

gwahanol lwybrau gwaith sydd eisoes ar y gweill o ran gwasanaethau plant.

## **Camau nesaf**

25. Byddaf yn sicrhau bod gan y Pwyllgor gopi o ymateb y Weinyddiaeth cyn gynted ag y caiff ei gwblhau.

26. Rwy'n disgwyl y bydd y broses o fonitro a gwerthuso'r ymateb i'r camau gweithredu o fewn cwmpas y Fframwaith Asesu Perfformiad a phrosesau atebolrwydd y Cynulliad. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar ei hynt yn ystod mis Medi 2002.

**Jane Hutt**

**Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**